

## Y Teulu

**Darlleniad 1: Effesiaid 3: 14-21**

**Darlleniad 2: Ioan 11: 1-16**

---

---

Trown yn wylaidd a gostyngedig atat yn awr, O! Dad nefol, mewn gweddi. Cymhwysa ni mewn meddwl ac ysbryd i ddynesu atat ac i deimlo dy fod yn ein plith y munudau hyn. Clodforwn a chanmolwn dy enw am yr hyn a fuost i ni yn Iesu Grist, dy Fab, am yr hyn wyt ti i ni'n awr, ac am yr hyn a fyddi i ni i'r dyfodol.

Ti, y Duw tragwyddol sy'n hollbresennol, hollalluog a hollwybodol, a gydnabyddwn am dy fawredd a'th ras yn a thrwy Iesu Grist, dy Fab, ein Ceidwad.

Creaist ddyn 'ar dy ddelw dy hun' a gwelaist yn dda i'w blannu ar y ddaear; rhoddaist iddo'r gallu a'r awydd i sefydlu 'teulu,' a thrwy'r cenedlaethau buost yn fawr dy ofal i ddiogelu'r patrwm arbennig hwnnw. Bendigwn di, O! Dad, am yr hil ddynol, a llawenhawn iti fod yn gyfrifol i'n rhoi ni'n deuluoedd ar y ddaear. Cydnabyddwn yn ddiolchgar ger dy fron y dilyniant unigryw hwn o berthyn i deulu a thylwyth. Ymfalchiwn, O! Arglwydd, nid yn unig yn ein teulu ni'n hunain, ond yn holl deuluoedd y ddaear. Sylweddolwn, O! Dduw, pa mor bwysig yr ystyria Iesu ei hun yr elfen deuluol yn ei fywyd yntau ar y ddaear, ac iddo uniaethu'i hunan â theulu Bethania. Cynorthwya ni, O! Dad, i werthfawrogi cyfraniad pob aelod o fewn i'r teulu, boed yn Fair neu'n Fartha neu'n Lasarus. Helpa ni i sylweddoli bod lle i bawb a phawb a'u lle o fewn y cylch teuluol. Diolchwn i ti am bobl debyg i Martha sy'n gweini'n ddirwgnach, ac am bobl debyg i Mair sy'n ystyriol a defosiynol ei naws. Canmolwn di O! Arglwydd, am iddynt ill dwy ddangos consýrn a chariad tuag at eu brawd Lasarus, yn eu hawydd i Iesu, y Meddyg mawr, ddod i'w weld.

Deisyfwn, O! Dduw, ar i deuluoedd daear ddilyn esiampl chwiorydd Bethania mewn cariad a chonsýrn tuag at eraill.

Gweddiwn, Arglwydd, dros deuluoedd Cymru heddiw, ac yng ngeiriau Elfed, deisyfwn:

‘Boed pob aelwyd dan dy wenau  
A phob teulu’n deulu Duw;  
Rhag pob brad, nefol Dad  
Cadw di gartrefi’n gwlad.’

Gweddiwn hefyd, O! Dduw, yng ngeiriau J.T. Job:

‘Dyro fwynder ar yr aelwyd,  
Purdeb a ffyddlondeb llawn,  
Adfer yno’r sanctaidd allor  
A fu’n llosgi’n ddisglair iawn:  
Na ddiffodded  
Arni byth mo’r dwyfol dân.’

Gweddiwn dros deuluoedd yr holl fyd yn eu hamrywiol amgylchiadau. Dyro gariad a phurdeb; dyro ymddiriedaeth a dealltwriaeth; dyro ras a chymod yng nghalonau aelodau pob teulu er mwyn sefydlu heddwch byd.

Cynorthwya ni, O! Arglwydd, i wneud y cyfan hyn er lles a llwyddiant y teulu dynol yr wyt ti, o’th ras a’th gariad, yn ei gynnal a’i gadw â’th law dy hun.

Tosturia wrthym, O! Dduw, a dyro i ni yn enw a thrwy haeddiant dy Fab, Iesu Grist ein Harglwydd, bardwn am ein beiau oherwydd mai trwyddo ef y gweddiwn hyn. Amen.

*Eric Williams*